DEINTYDDIAETH

Fel rheol, bydd gan unigolyn sydd wedi graddio mewn Deintyddiaeth y gallu i:

- Ddefnyddio'i grebwyll ac arfer cyfrifoldeb personol.
- Cyfathrebu'n effeithiol mewn cyd-destun gwyddonol a phroffesiynol.
- Defnyddio TG i gyfathrebu, casglu a dadansoddi data ac ar gyfer dysgu hunan-gyfeiriedig.
- Dadansoddi a datrys problemau ac ymdrin ag ansicrwydd.
- Rheoli amser, pennu blaenoriaethau a gweithio i derfynau amser penodol.
- Gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar egwyddorion moesegol, moesol a gwyddonol cadarn.
- Caffael, dadansoddi, prosesu a rhoi gwybodaeth mewn modd proffesiynol er mwyn datrys problemau a llywio penderfyniadau.
- Cyfathrebu'n effeithiol gyda chymheiriaid, gweithwyr proffesiynol eraill a'r cyhoedd yn gyffredinol.
- Gallu defnyddio sgiliau rhyngbersonol priodol ar gyfer gweithio mewn tîm aml-sgiliau.
- Deall pwysigrwydd archwiliad clinigol, adolygu cymheiriaid ac addysg a datblygiad proffesiynol parhaus.
- Gwybod beth yw'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer ymchwil wyddonol a gwerthuso tystiolaeth sydd eu hangen ar gyfer dull yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Dysgu a defnyddio llawer iawn o wybodaeth wyddonol ac ymarferol.

Trosolwg o Ddeintyddiaeth

Disgyblaeth glinigol broffesiynol yw deintyddiaeth ac mae'n ymwneud ag atal, canfod, rheoli a thrin clefydau'r geg a deintyddol a chynnal iechyd y geg a deintyddol mewn unigolion ac mewn cymdeithas. Mae'n seiliedig ar egwyddorion gwyddonol a thechnegol cadarn gyda gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gwyddorau biolegol a clinigol yn sail i agweddau clinigol deintyddiaeth. Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n graddio o ysgolion deintyddol ddangos dealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd arferion moesegol a phroffesiynoldeb, sgiliau cyfathrebu gwych a chymhwysedd mewn agweddau clinigol a thechnegol deintyddiaeth.

Ar ôl cael gradd Baglor mewn Deintyddiaeth (BDS neu BChD) bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr deintyddol yn parhau i ymarfer ac efallai y bydd rhai yn dewis ennill cymwysterau pellach sy'n cael eu cydnabod gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Bydd rhai yn mynd ymlaen i hyfforddi i fod yn ymgynghorwyr mewn ysbytai ym meysydd arbenigol deintyddiaeth, sef orthodonteg, iechyd deintyddol plant, iechyd deintyddol cyhoeddus a deintyddiaeth adferol, gyda rhai yn cael cymhwyster dwbl fel meddygon ac yn dod yn llawfeddygon yr ên a'r wyneb. Efallai hefyd y bydd nifer fach yn hyfforddi mewn mono-arbenigeddau megis endodonteg, periodonteg a phrostheteg er mwyn bod yn arbenigwyr mewn deintyddfa neu ysbyty. Efallai y bydd canran fechan yn ystyried gyrfaoedd eraill ac, yn ogystal â llawer o alluoedd proffesiynol a chlinigol sy'n benodol i faes Deintyddiaeth, byddant yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy.

Ffynhonnell: CIHE 2006